

# Cyngor Cymuned Llandwrog



<b>Cyfarfod</b>	<b>Cyfarfod o'r Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>Nos Lun , 16 Mai 2016</b>
<b>Amser</b>	<b>7.30 yr hwyr</b>
<b>Lleoliad</b>	<b>Ystafell Gwylwyr y Glannau, Llandwrog</b>

## Rhaglen

- 1 Croeso'r Cadeirydd**
- 2 Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau.**
- 3 Datgan buddiant**
- 4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (18 Mai 2016)**
- 5 Materion yn Codi o'r Cyfarfod uchod**
  - a) **Cymdeithas y Porwyr**
    - #
      - i) Giât i'r Mynydd ger Siop Doris, Carmel - Y Gymdeithas i drafod cynnig y Cyngor i gyfrannu £200
      - ii) Cyd-weithio - Prosiect Rheoli Comin - cais ar gyfer awgrymiadau ar ba' adnoddau y gellir ei gynnwys. Cyfarfod wedi ei drefnu Dydd Iau, 14 Ebrill gyda Swyddog o PONT, Porwyr a cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned. Diweddariad ar y noson.
      - iii) Tan y Foel Mawr, Y Fron - Y Gymdeithas yn derbyn sylwadau'r Cyngor  

Llythyrau wedi ei anfon i'r Adran Cynllunio ac adran Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd ac i o gwmi CCSQ
      - iv) Cynllun Gridiau/Pleidleisio - yn gofyn i'r Cyngor am sylwadau ar sut i symud ymlaen gyda threfn pleidleisio

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlydol gan y Gymdeithas 8 Mai 2016

*Mae Pwyllgor y Porwyr wedi cyfarfod heno.*

*Un eitem ar yr Agenda oedd Pleidlais Gridiau'r Fron. Er mwyn chwarae teg, a fuasai'r Cyngor Cymuned yn cytuno derbyn, a chyfri, pleidleisiau trigolion Y Fron a'r Cylch os gwelwch yn dda?*

*Yr eitem arall o ddiddordeb i'r Cyngor Cymuned yw giât Siop Doris. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynnu gofyn i Gof Waenfawr roi pris i ni am drwsio'r giât.*

*Mae ein datganiad diddordeb i wneud cais am arian i wella'r Comin wedi mynd i Gaerdydd. Er gwybodaeth mae o'n cynnwys, ymysg eraill, rhoi gwyneb ar safle'r hen domen lechi ger Cilgwyn, a hefyd yn cynnwys ymwared o'r eithin ar y llwybr answyddogol rhwng Lôn Buarth (ger Buarth) a Penmaentwrog, ger Y Fron.*

*Ynglŷn â chyfarfodydd ymgynghori gridiau'r Fron ag yn y blaen, bwriad y Pwyllgor yw:*

- a. Dosbarthu'r taflenni/mapiau ar 8 Mehefin.*
- b. Cael prynhawn agored yn Ysgol Bronyfoel ar 18 Mehefin.*
- c. Cael cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Bronyfoel (wedi ei chadeirio gan aelod o'r Cyngor Cymuned) ar 25 Mehefin.*
- ch. Dyddiad cau y pleidlleisio, dweder, 30 Mehefin. (Newydd gofio ni phenderfynnwyd ar hyn, ond nid yw yn afresymol am wn i).*

*Mae hyn i gyd, wrth gwrs, yn ddibynol ar garedigrwydd Cyngor Gwynedd i adael i ni ddefnyddio'r Ysgol ar y dyddiadau uchod. (Mae'r Cyngor wedi cytuno i ni ddefnyddio'r Ysgol mewn egwyddor).  
E-bostiaf Cyngor Gwynedd heddiw.*

## **b) Gor yrru trwy bentrefi**

Derbyniwyd yr ymateb canlynol gan Gyngor Gwynedd-

##

*Nodaf eich pryderon ynglŷn â goryrru drwy'r pentref ac eich ymholiad arwydd electroneg.*

*Fel yr wyt yn cyfeirio at yn dy e-bost, mae'r ffordd sydd o dan sylw, gyda thwmpathau traffig arni yn barod, sef y ddarpariaeth yma yw un o'r mesuriadau tawelu traffig fwyaf effeithiol sydd ar gael, felly yn yr achos yma, chredaf mai mater i'r Heddlu yw hwn, gan mai nhw sy'n gyfrifol am orfodi cyfyngiadau cyflymder. Anfonaf gopi o dy e-bost i'r Heddlu gan ofyn iddynt roi sylw i'r mater.*

*Mewn perthynas â chais am arwydd electroneg. Yn anffodus nid oes gan y Cyngor arian ar gyfer arwyddion o'r fath, hyd yn oed cynnal y rhai presennol. Fodd bynnag, os yw'r Cyngor Cymuned yn awyddus i ariannu arwydd o'r fath (yn cynnwys costau cynnal), mae'r cynnig ar gael iddynt.*

*Gobeithio fod yr uchod yn esbonio ein sefyllfa ar y mater ac mae croeso i ti gysylltu â mi os ti angen unrhyw wybodaeth bellach*

## **c) Biniau Brown, Carmel**

Archeb wedi ei anfon wedi ei anfon gan Bennaeth yr Adran i gyflawni'r gwaith.

## **ch) Cerbyd wedi ei adael yn ger yr Hen Gop, Carmel**

Y mater wedi ei gyfeirio at Gyngor Gwynedd a'r Heddlu

d) **Taliadau Neuaddau**

Addasiad o +£18.00 i Neuadd Groeslon a Neuadd Carmel -£36.00.

dd) **Caeau Pêl-droed Carmel a Fron**

i) Sefyllfa ddiweddaraf parthed y ffurflenni TP1

Diweddariad ar y noson

ii) Giât Mynedfa i Cae Carmel

Giât newydd wedi ei osod gan Meirion Davies ac anfoneb gan y Cyngor hwn wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd am £400.

e) **Damwain Fynwent Bryn'rodyn**

Llythyr wedi ei anfon i Crawfords , y Loss Adjustor a benodwyd gan yswirwyr y gyrrwr NFU- yn gwrthod y cynnig.

Dim ymateb hyd yma.

## 6 Materion yn codi gan Aelodau

### **Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon**

Gwelliannau i safon a chyflwr llwybr cyhoeddus ger Ystâd Ffordd Iago, Y Groeslon

### **Cyng. Bryn Williams**

Clwt Foty, Carmel

### **Cyng. Robert Isaac Jones**

Arwydd peryglus Groeslon Ffrwd

Y mater wedi eu cyfeirio at Gyngor Gwynedd

## 7 Archwilio Cyfrifon 2015-16

Cadarnhau apwyntio Archwilydd Mewnol ar gyfer cyfrifon 2015-16 y Cyngor.

## 8 Auto Enrollment - Pensiwn Gweithwyr y Cyngor

Fel Cyflogwr mae yn ddyletswydd i gyflogwyr gynnig pensiwn i'w gweithwyr. Mae HMRC wedi cadarnhau mai 1 Gorffennaf ydi dyddiad y mae rhaid i'r Cyngor hwn weithredu. Cadarnhad o'r sefyllfa fel y derbyniwyd gan Un Llais Cymru

*Mae dyletswyddau cyngorau unigol mnew perthynas a phensiynau yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae cyngorau sydd yn cyflogi un person ar gyflog o £5842 neu lai y flwyddyn dan ddyletswydd i gynnig pensiwn i'r cyflogai yna DIM OND OS YDYN NHW YN GOFYN AM GAEL EU RHOI AR GYNLLUN PENSIWN, ac nid yw'n gorfod bod yn bensiwn dan y drefn "auto enrollment" (felly dydi'r cyngor ddim yn gorfod talu cyfraniadau). Os nad ydi'r cyflogai yna yn gofyn am gael ei roi ar gynllun pensiwn, yna does dim rhaid i'r Cyngor weithredu.*

*Os ydi'r un cyflogai sy'n gweithio i'r cyngor yn ennill rhwng £5842 a £10,000 y flwyddyn, yna byddai angen i'r cyngor roi'r cyflogai hwnnw ar gynllun pensiwn "auto enrollment" DIM OND OS YDI'R CYFLOGAI YN GOFYN AM GAEL EU RHOI AR GYNLLUN PENSIWN. Os nad ydi'r cyflogai yn gofyn am gael ei roi ar gynllun pensiwn, yna does dim rhaid i'r Cyngor weithredu.*

*I sicrhau fod y cyngor yn gwneud fel y dylai o safbwynt y drefn yma, rydw i'n argymhell i chi ddefnyddio adnodd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau drwy'r linc canlynol:*

*<http://www.thepensionsregulator.gov.uk/cy/employers/>.*

*<<http://www.thepensionsregulator.gov.uk/cy/employers/>>Bydd hyn yn galluogi i chi wirio beth ydi dyletswyddau'r cyngor drosoch chi mewn perthynas a phensiwn. Os yw'r canlyniad yn golygu nad oes angen i'r Cyngor wneud unrhyw beth, yna, mae angen hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiwn o hynny.*

## **9 Pwyllgor Cyllid -**

- i) Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 3 Mai 2016  
#
- ii) Materion yn Codi

## **10 Cyfarfod Dinas Dinlle -**

- i) Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher 20 Ebrill 2016  
#
- ii) Materion yn Codi

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Rueben Woodford o CNC-

*Gobeithio eich bod chwi a phawb ar y pwyllgor yn cadw yn iawn Fydd grŵp o wirfoddolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chymorth Cyngor Gwynedd i lawr yn Ninas Dinlle Bore Dydd Iau, 5ed, i gasglu sbwriel a twtio o gwmpas y ffosydd.*

*Bydd hyn hefyd yn siawns i mi weld y gwaith mae'r Cyngor wedi wneud yn y dyddiau dywethaf i symud llinell y llwybyr i fan mwy diogel. Rydym ni wedi gweithio yn agos hefo'r Cyngor i greu llwybyr diogel a deniadol ar gyfer pobol lleol a ymwelwyr.*

*Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn yr cyfarfod nesaf*

## **Gohebiaeth – Llythyrau ac E-byst**

## **11 Cyngor Gwynedd - Grant Llwybrau Cyhoeddus**

Llythyr Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod y gwasanaeth wedi derbyn toriadau ariannol yn 2016-17 ac yn 2017-18.

Effaith ar Gyngor Llandwrog - grant o £1200 yn 2016-17 ac yn debygol, dim yn 2017-18 a thu hwnt

## **12 Ffoes Bethesda Bach**

Derbyniwyd cwyn gan drigolyn o Bethesda Bach ynglŷn â chyflwr ffoes sydd yn llifo rhwng y bythynnod ar hen ddepo olew. (Stad Gernant bellach) Dywed y trigolyn fod y ffoes wedi gorlifo dwywaith y Gaeaf diwethaf ac wedi gwneud difrod i gerddi ac un tŷ. Mae'r broblem yn deillio gan fod y ffoes yn dod allan i gae cyn rhedeg ei chwrs o dan y lon fawr. Mae'r ffoes wedi ei gau ac mae gwartheg yn pori yno yn gwaethygu'r sefyllfa. Gofynnir am gefnogaeth y Cyngor i ddwyn pwysau ar Gyngor Gwynedd i orfodi'r ffermwr i gynnal y ffoes a hynny yn rheolaidd.

## **13 Ceisiadau Cynllunio**

**Ceisiadau Mai 2016 -**

**C16/0399/17/LL**

**Cae Ymryson, Carmel LL54 7AS**

Cais ar gyfer codi modurdy

**C16/0422/17/LL**

**Rhoslan, Groeslon LL54 7EB**

Ail gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd i gynnwys dymchwel adeiladau allanol presennol a chdi estyniadau deulawr ar ochr a chefn yr eiddo a chodi modurdy /gweithdy ar wahân.

**C16/0391/17/LL**

**Morfa Mawr, Dinas Dinlle LL54 7TP**

Cais i drosi adeilad allanol i weithdai gwledig.

**C16/0337/17/LL**

**Ysgol Bronyfoel, Y Fron LL54 7BB**

Cais ar gyfer newid defnydd, estynnu a gwneud newidiadau allanol sy'n cynnwys gosod paneli solar o'r cyn Ysgol Gynradd i greu Canolfan Gymunedol, hostel/bunkhouse 16 gwely, caffi, siop, Ardal newid allanol, ystafelloedd cyfarfod/deor busnes ystafell triniaeth/Application for the change of use, extension and alterations of the former primary school, which includes provision of solar panels, and use as

community centre and 16 bed hostel/bunkhouse, cafe, shop, outdoor changing facilities, meeting rooms/business incubation unit and treatment room. Ail gyflwyniadau gais blaenorol a wrthodwyd i gynnwys dymchwyl adeiladau allanol presennol a chdi estyniadau deulawr ar ochr a chefn yr eiddo chodi modurdy /gweithdy ar wahân

### **Materion Ariannol**

#### **14 Derbyniadau i 30 Ebrill 2016**

<b>Manylion</b>	<b>Cyfanswm</b>
HMRC - Ad-daliad TAW	£856.60

#### **15 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -**

<b>Manylion</b>	<b>Swm heb TAW</b>	<b>Cyfanswm y Taliad</b>	<b>Rhif Siec</b>
Cyflog y Clerc - Mai 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Mai 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc – Mai 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol

#### **16 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf**

Cyfarfod o'r Cyngor - 20 Mehefin 2016  
Pwyllgorau a Gweithgorau - i'w gadarnhau

#### **17 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (20 Mehefin 2016)**